# Cod Ymarfer i'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed

Cod Ymarfer 18: 2023 Fersiwn 01
Yn dod i rym: 3 Tachwedd 2023

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

| Dyddiad | Yn Disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 3 Tachwedd 2023 | 2020 Fersiwn | Mân ddiwygiadau i'r geiriad er eglurder |
| 1 Mai 2020. | 2014 Fersiwn. | Ychwanegwyd: eglurder ynglŷn â chynnwys holl ddemograffeg myfyrwyr, gan gynnwys ei gwneud yn ofynnol i arweinwyr cyfoed sy'n gweithio gydag unigolion agored i niwed gael gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; arweinwyr cyfoed yn cael eu dynodi i ôl-raddedigion; cyswllt cyn cyrraedd y brifysgol; a chofnodi cyswllt gyda myfyrwyr drwy ddangosfwrdd yr arweinwyr cyfoed. hefyd 'Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed Canolog' wedi newid o 'Gydlynydd Arweinwyr Cyfoed'. |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad y Cymeradwywyd | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Gweinyddu a Gwasanaethau Myfyrwyr. | Pwyllgor Rheoliadau'r Senedd ac Achosion Arbennig. | 3 Tachwedd 2023. | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd, gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Weithdrefn hon gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Deon y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau'r Coleg, yn y drefn honno, fel y bo'n briodol.

# Cod Ymarfer i'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed

Mae'r Cod hwn yn amlinellu swyddogaeth cefnogaeth Arweinwyr Cyfoed.

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Cydlynydd Arweinwyr Cyfoed Canolog | Aelod staff yn y Gwasanaethau Myfyrwyr sy'n gyfrifol am gydlynu'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed. |
| Cydlynydd/Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed Ysgol | Aelod(au) staff sy'n gyfrifol am gydlynu'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed mewn Ysgol. |
| Arweinwyr Cyfoed* | Myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i gymryd rhan yn y Cynllun Arweinwyr Cyfoed. |

* Fel y disgrifir yn y Cod hwn, gall Ysgolion ddewis gwahaniaethu rhwng arweinwyr cyfoed yn dibynnu ar eu swyddogaethau.

**Egwyddorion Sylfaenol**

1. Dylid darllen y Cod Ymarfer hwn gyda'r canllawiau i Gydlynwyr Arweinwyr Cyfoed Ysgol, Arweinwyr Cyfoed a Darpar Arweinwyr Cyfoed. Mae'r rhain ar gael gan y Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion.
2. Gwirfoddolwyr o blith y myfyrwyr yw Arweinwyr Cyfoed sy’n helpu myfyrwyr israddedig newydd a lle bo’n briodol, myfyrwyr ôl-raddedig i ymgartrefu yn eu bywyd newydd ym Mangor. Mae pob myfyriwr sy'n astudio ar gyfer graddau ym Mhrifysgol Bangor yn gymwys i ddod yn Arweinwyr Cymheiriaid. Mae gwaith yr Arweinwyr Cyfoed yn rhan allweddol o'r ffordd mae Bangor yn croesawu ei myfyrwyr. Maent yn cynorthwyo gydag integreiddio cymdeithasol ac academaidd ac yn ffactor bwysig o ran sicrhau bod y rhan fwyaf o fyfyrwyr yn ymgartrefu'n gyflym ac yn dda ym Mangor. Fel gwirfoddolwyr, nid ydynt yn cael tâl am y dyletswyddau arferol a wnânt ond, i gydnabod y cyfleoedd y mae gwirfoddoli yn ei roi i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, mae Arweinwyr Cyfoed yn cael pwyntiau profiad tuag at Wobr Cyflogadwyedd Bangor (BEA).
3. Gweithredir y Cynllun Arweinwyr Cyfoed drwy'r sefydliad cyfan. Caiff ei reoli'n ganolog gan y Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion, sy'n gweithio'n agos â staff academaidd a chanolog, yn ogystal â chyda'r Arweinwyr Cyfoed eu hunain. Er bod yna bwyslais canolog cryf ar lawer agwedd ar y cynllun, mae'r Arweinwyr Cyfoed yn gwneud eu dyletswyddau o fewn eu hysgolion. Mae gan bob Ysgol ei charfan ei hun o Arweinwyr Cyfoed a reolir gan aelod o staff yr Ysgol sy'n gyfrifol am gynnal y cynllun o fewn yr Ysgol.
4. Mae'r garfan Arweinwyr Cyfoed yn cynnwys Arweinwyr Cyfoed newydd (Arweinwyr Cyfoed Tro Cyntaf) a rhai sy'n dychwelyd at y cynllun am yr ail, neu hyd yn oed y trydydd, tro (Uwch Arweinwyr Cyfoed). Defnyddir y term 'Uwch' yn weinyddol i ddynodi Arweinwyr Cyfoed sydd eisoes wedi'u hyfforddi ac y mae geirda iddynt ar gael yn barod ar ffeil. Mae ganddynt yr un dyletswyddau arferol ag y mae holl Arweinwyr Cyfoed yn eu cyflawni ond, oherwydd eu bod yn fwy profiadol, mae llawer o Ysgolion yn gofyn am eu barn wrth gynllunio gweithgareddau’r Wythnos Groeso.

5. Tra bo'n well gan rai Ysgolion gadw at y ddwy lefel a ddisgrifiwyd uchod i'w carfan Arweinwyr Cyfoed, mae eraill yn hoffi ychwanegu trydedd lefel. Gelwir y rhain fel rheol yn Brif Arweinwyr Cyfoed ac maent yn gweithio'n agosach gyda'r staff ac yn cymryd cyfrifoldeb ychwanegol. Gellir gofyn iddynt ddychwelyd i Fangor ychydig yn gynt nag Arweinwyr Cyfoed eraill ac fel rheol maent yn cyflawni tasgau megis: trefnu digwyddiadau; gweithredu fel arweinydd tîm a rhoi arweiniad i Arweinwyr Cyfoed eraill; pennu myfyrwyr newydd a dyletswyddau i Arweinwyr Cyfoed; casglu ynghyd adnoddau fel pecynnau gwybodaeth, llawlyfrau a chrysau T a'u dosbarthu. Fel rheol mae'r Prif Arweinwyr Cyfoed yn Uwch Arweinwyr Cyfoed, er nad yw hynny'n wir ym mhob achos.

6. Oherwydd bod y cyfrifoldebau ychwanegol a bennir i Brif Arweinwyr Cyfoed y tu allan i brif gylch gorchwyl swydd Arweinydd Cyfoed, mae'r telerau y cynigir y dyletswyddau hynny iddynt yn fater rhwng yr Ysgolion a'r Arweinwyr Cyfoed. Fodd bynnag, yn ychwanegol at y pwyntiau BEA a roddir i'r holl Arweinwyr Cyfoed, gellir rhoi pwyntiau ychwanegol tuag at y BEA i Brif Arweinwyr Cyfoed. Yr un modd, gall staff yn yr Ysgolion argymell rhoi pwyntiau BEA ychwanegol i unrhyw Arweinydd Cyfoed sy'n dangos ymroddiad tu hwnt i'r hyn a ddisgwylir yn y swydd, bod hynny'n gymryd cyfrifoldebau ychwanegol i lenwi bylchau mewn darpariaeth neu helpu gyda sefyllfaoedd o natur fwy heriol neu hirfaith. Gellir dyfarnu'r pwyntiau hyn yn ychwanegol at bwyntiau i Brif Arweinydd Cyfoed, os yw hynny'n briodol.

**Cyfrifoldebau'r Brifysgol**

7. Dyma yw cyfrifoldebau'r Brifysgol:

- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i gynnal, datblygu ac ymestyn y Cynllun Arweinwyr Cyfoed:
    - yn unol â Chynllun Strategol y sefydliad;
    - i gynorthwyo myfyrwyr israddedig ac lle bo’n briodol ôl-radd i ymgartrefu'n ddidrafferth ym Mhrifysgol Bangor.
- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed o fewn y sefydliad a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad.

**Cyfrifoldebau’r Gwasanaethau Canolog**

8. Cyfrifoldebau’r Gwasanaethau Canolog (h.y. adrannau o'r Brifysgol heblaw Ysgolion academaidd) yw:

- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed a rhoi gwybodaeth amdano i bartïon perthnasol o fewn y sefydliad, a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad fel bo'n briodol.
- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion ac i Gydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion yn eu gwahanol swyddogaethau.

**Cyfrifoldebau'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion**

9. Cyfrifoldebau’r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion yw:

- Cynnal, datblygu ac ymestyn y Cynllun Arweinwyr Cyfoed i gynorthwyo myfyrwyr israddedig i ymgartrefu'n ddidrafferth ym Mhrifysgol Bangor.
- Rheoli'r agweddau ar y Cynllun Arweinwyr Cyfoed a weinyddir yn ganolog:
    - cychwyn a chefnogi recriwtio i'r cynllun ar draws y sefydliad;
    - darparu hyfforddiant a gwybodaeth ategol safonol;

  - ceisio geirdaon i Arweinwyr Cyfoed newydd a gwirio eu cofnodion disgyblaethol yn y Brifysgol;
  - gwrthod ceisiadau gan fyfyrwyr a ystyrir yn anaddas;
  - tynnu unrhyw Arweinydd Cyfoed a ystyrir yn anaddas yn ddiweddarach yn ôl o'r cynllun;
  - ceisio sylwadau am y cynllun a gwneud gwerthusiadau ohono;
  - trefnu cyflwyno tystysgrifau i Arweinwyr Cyfoed i gydnabod eu gwaith i'r sefydliad.

- Cefnogi Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed mewn Ysgolion yn eu gwaith:
  - cysylltu ynghylch y prosesau canolog;
  - rhoi cyngor a chyfarwyddyd;
  - lledaenu arfer da;
  - hwyluso rhwydwaith Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed i gyfarfod o leiaf unwaith bob semester.

- Cefnogi Arweinwyr Cyfoed yn eu swydd:
  - darparu hyfforddiant;
  - darparu gwybodaeth angenrheidiol a chrysau T;
  - rhoi cyngor a chyfarwyddyd yn ystod pob cam o Arwain Cyfoedion.

- Cysylltu â gwasanaethau canolog, ysgolion a cholegau o fewn y sefydliad fel bo'n berthnasol i'w hanghenion ac anghenion y cynllun.

- Codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed o fewn y sefydliad a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad.

**Cyfrifoldebau Ysgolion a Cholegau**

10. Cyfrifoldebau ysgolion a cholegau yw:

- Penodi staff i weithredu fel Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion.

- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed o fewn y sefydliad a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad.

- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion i ddatblygu a rheoli'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed i gyflawni anghenion yr ysgol a'i hisraddedigion a myfyrwyr lle bo’n briodol ôl-radd newydd.

**Cyfrifoldebau Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed Ysgolion**

11. Cyfrifoldebau'r Cydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion yw:

- Rhoi gwybod i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion am newidiadau i staff sy'n gyfrifol am y Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn yr ysgol.

- Cysylltu â'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion a rhoi cefnogaeth iddo/iddi fel bo'n berthnasol i gyflawni gofynion y Cynllun Arweinwyr Cyfoed a'r ysgol.

- Rheoli gweithredu'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn ymarferol yn eu hysgol academaidd:
  - recriwtio carfan o Arweinwyr Cyfoed addas i anghenion yr ysgol o ran niferoedd ac addasrwydd ymgeiswyr;
  - gweithio gyda chydweithwyr ac Arweinwyr Cyfoed i gynllunio rhaglen groeso gynhwysfawr;
  - dyrannu grŵp bach o fyfyrwyr newydd i bob arweinydd cyfoed, a sicrhau mai dim ond arweinwyr cyfoed sydd â thystysgrif DBS gyfredol sy’n cael eu

  dyrannu i fyfyrwyr newydd dan 18 oed a'r rhai a ddiffinnir fel oedolion agored i niwed;
  - hwyluso cyswllt rhwng Arweinwyr Cyfoed a myfyrwyr newydd cyn iddynt gyrraedd y brifysgol;
  - pennu dyletswyddau penodol i Arweinwyr Cyfoed;
  - cefnogi a chynghori Arweinwyr Cyfoed fel bo'r angen gyda'u gwaith yn ystod y cyfnod croesawu ac ar ôl hynny;
  - hwyluso'r ffordd i fyfyrwyr newydd fedru cael y gefnogaeth sydd ar gael drwy'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed;
  - ymyrryd os nad yw myfyriwr, am ba bynnag reswm, wedi cyfarfod ag Arweinydd Cyfoed ac yn dymuno gwneud hynny;
- Mynd i gyfarfodydd gyda'r Cydlynydd Canolog Cefnogi Cyfoedion a Chydlynwyr Arweinwyr Cyfoed ysgolion eraill er mwyn:
  - sicrhau bod y Cynllun Arweinwyr Cyfoed yn gweithio'n effeithiol;
  - rhannu arfer da;
  - cynorthwyo gyda datblygu'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed.
- Rhoi cefnogaeth i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion i godi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Arweinwyr Cyfoed o fewn y sefydliad a chodi ei broffil y tu allan i'r sefydliad.

**Cyfrifoldebau holl Arweinwyr Cyfoed**

12. Cyfrifoldebau holl Arweinwyr Cyfoed yw:

- Cwblhau'r prosesau ymgeisio a hyfforddi yn llwyddiannus.
- Gweithredu fel llysgennad positif dros Brifysgol Bangor.
- Cyflawni gweithgareddau Arweinydd Cyfoed mewn ffordd gyfrifol a chynhwysol.
- Peidio ag ymddwyn mewn unrhyw ffordd sy'n tanseilio'r ymddiriedaeth a roddwyd ynddynt.
- Cynorthwyo israddedigion newydd, a lle bo'n briodol, myfyrwyr ôl-radd i drosglwyddo'n gadarnhaol i Brifysgol Bangor drwy'r canlynol:
  - sefydlu cyswllt cyn cyrraedd, lle bo modd, gyda myfyrwyr newydd a ddynodwyd iddynt gan gydlynydd arweinwyr cyfoed eu hysgol;
  - eu croesawu i'r Brifysgol;
  - eu helpu i wneud ffrindiau mewn digwyddiadau cymdeithasol perthnasol;
  - arwain teithiau i weld mannau allweddol;
  - helpu gyda digwyddiadau cynefino perthnasol;
  - eu helpu i fynd at wasanaethau cefnogi'r Brifysgol os oes angen;
  - a chofnodi cyswllt gyda myfyrwyr a ddynodwyd iddynt drwy ddangosfwrdd yr arweinwyr cyfoed.
- Gofyn am gefnogaeth gan staff perthnasol os codir materion sydd y tu hwnt i swyddogaeth Arweinydd Cyfoed
- Rhoi gwybod i Gydlynydd Arweinwyr Cyfoed yr ysgol neu'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion os nad ydynt yn gallu parhau neu ddim yn dymuno parhau i fod yn Arweinydd Cyfoed.

**Cyfrifoldebau Myfyrwyr sy'n Dod i Mewn**

13. Cyfrifoldebau myfyrwyr sy'n dod i mewn yw:

- Rhoi gwybod i'r Cydlynydd Cefnogi Cyfoedion neu i Gydlynydd Arweinwyr Cyfoed eu hysgol os:
  - nad ydynt eisiau cael Arweinydd Cyfoed;
  - nad ydynt wedi cyfarfod ag Arweinydd Cyfoed ac yn dymuno gwneud hynny;
  - hoffent gael Arweinydd Cyfoed gwahanol i'r un a bennwyd iddynt.
- Peidio â disgwyl gormod gan eu Harweinydd Cyfoed a rhoi pwysau arnynt sydd tu hwnt i ddisgwyliadau arferol swyddogaeth Arweinydd Cyfoed.